

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2023

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Polisi Cenedlaethol Gweithrediaeth GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion

**Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr adolygiad** 31 Mawrth 2024

**I'w weithredu gan:**

Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG,  
awdurdodau iechyd arbennig, darparwyr gofal  
sylfaenol.

**Angen gweithredu erbyn:** 12 Mai 2023

**Anfonwr:**

Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol  
Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrs GIG Cymru

**Enw(au) cyswllt Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Teresa Bridge, Ansawdd a Diogelwch, Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio. Rhif ffôn: 03000 256797 E-bost:

[AnsawddANyrsio@llyw.cymru](mailto:AnsawddANyrsio@llyw.cymru)

**Dogfennau amgaeedig:** Dim



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Yr Athro/Professor Chris Jones**  
Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru  
a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol  
National Clinical Director, NHS Wales and Deputy Chief  
Medical Officer

Sue Tranka  
Prif Swyddog Nyrsio  
Chief Nursing Officer  
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru  
Nurse Director NHS Wales

12 Mai 2023

Annwyl Gydwethwyr

Hoffem dynnu eich sylw at y polisi cenedlaethol newydd ar adrodd a rheoli digwyddiadau diogelwch cleifion.

Cafodd y polisi hwn ei ddatblygu gan gyn Uned Gyflawni GIG Cymru (sydd bellach yn rhan o Weithrediaeth GIG Cymru) drwy gyfres o weithdai ymgynghori ar ddiwedd 2022, ac mae'n cyflawni cam gweithredu 4 o [Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y GIG | LLYW.CYMRU](#).

O ganlyniad i adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r polisi newydd yn uno polisi Llywodraeth Cymru a chanllawiau gweithredu'r Uned Gyflawni. Mae'n disodli polisi Digwyddiadau Diogelwch Cleifion Llywodraeth Cymru, Mai 2021, a chanllawiau gweithredu'r Uned Gyflawni, Mehefin 2021. Mae'r polisi'n amlinellu sawl newid allweddol, er enghraifft mae sefydlu system i ddadansoddi data digwyddiadau fesul thema wedi'i ddisodli gan gynlluniau i gyflawni dadansoddiad thematig ar lefel genedlaethol gan ddefnyddio'r System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru.

Mae adrodd am ddigwyddiadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn mynd law yn llaw i helpu i wella ansawdd a diogelwch gofal cleifion, sef un o ddyheadau *Cymru Iachach*. Mae'r polisi diwygiedig hwn yn grymuso sefydliadau i gymryd perchnogaeth a bod yn atebol am roi gwybod am ddigwyddiadau a'u rheoli, ac yn amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion ar draws GIG Cymru.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau GIG Cymru gadarnhau'r polisi cenedlaethol diwygiedig hwn drwy eu prosesau llywodraethu mewnol yn ystod Ch1 2023/24. Gallwch weld y polisi diwygiedig a'r dogfennau ategol drwy ddilyn y ddolen isod, a dylid eu defnyddio yn syth.

[Perfformiad a Sicrwydd – Gweithrediaeth GIG Cymru](#)

Bydd y ffurflenni Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) yn cael eu diweddarau i helpu i wella ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei derbyn gan



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Weithrediaeth GIG Cymru a chefnogi dadansoddiad mwy thematig o ganlyniadau'r ymchwiliad.

Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid allweddol a chydweithwyr Gweithrediaeth GIG Cymru sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r polisi a'r dogfennau ategol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Chris Jones".

**YR ATHRO/PROFESSOR CHRIS JONES**

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "J. Rankin".

**CHIEF NURSING OFFICER  
NURSE DIRECTOR NHS WALES  
PRIF SWYDDOG NYRSIO  
CYFARWYDDWR NYRSIO GIG CYMRU**